Arweiniad atodol ar gyfer dogfennaeth statudol

Gorffennaf 2005

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

...Rhagoriaeth i bawb... ...Excellence for all...

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Arweiniad atodol ar gyfer dogfennaeth statudol

Cyhoeddwyd gan Estyn Gorffennaf 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir wrth fynd i'r wasg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at publications@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

©Hawlfraint y Goron 2005: Gellir defnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Arweiniad atodol ar gyfer dogfennaeth statudol

Am beth mae'r arweiniad yn sôn?

Egluro'r ddogfennaeth statudol sy'n ofynnol gan ysgolion a gynhelir.

Ar gyfer pwy mae'r arweiniad?

Ar gyfer arolygwyr ysgolion cynradd, meithrin, uwchradd ac ysgolion arbennig.

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2005

Cyflwyniad

Ymddengys na roddir unrhyw restr safonol i ysgolion ac AALlau o ran y ddogfennaeth statudol a ddylai fod ar waith.

Mae angen y wybodaeth hon. Yn gyntaf, o ran egluro'r sefyllfa ar gyfer ysgolion ac AALlau, ac yn ail i Arolygwyr fod yn ymwybodol o'r ddogfennaeth sydd yn statudol mewn gwirionedd a dogfennaeth nad yw'n statudol ond a argymhellir.

Mae'n amlwg o siarad ag AALlau ac ysgolion y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chroesawu.

Gobeithio y bydd y wybodaeth ganlynol yn egluro'r gofynion. Bydd angen i gydweithwyr fod yn ymwybodol na all y rhestr fod yn derfynol a bydd yn newid yn gyson. Bydd angen adolygu a diweddaru'r rhestr yn gyson.

Rhestr o Bolisïau Statudol y mae Cyrff Llywodraethol Ysgolion yng Nghymru yn gyfrifol amdanynt a Dogfennau eraill sy'n ofynnol gan Gyrff Llywodraethol.

POLISÏAU STATUDOL (Sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gyrff llywodraethol eu pennu, eu mabwysiadu a'u gweithredu.)	**DOGFENNAETH STATUDOL (Sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith y mae gan y corff llywodraethol ddyletswydd i'w cynhyrchu, ei mabwysiadu a'i chyhoeddi.)**
POLISI MYNEDIAD Ysgolion sy'n cael Cymorth Gwirfoddol ac Ysgolion Sylfaen (Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion a Reolir os yw'r AALl yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb iddyn nhw). Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (SSFA) 1998 Cod Ymarfer y Swyddfa Gymreig ar dderbyniadau Ysgolion 1999.	**CYNLLUN HYGYRCHEDD** Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Arbennig ac Anabledd 2001) DDA. Rhan 1V. DDA, Rhan III. Cynllunio i Gynyddu Mynediad i Ysgolion ar gyfer Disgyblion Anabl – Cylchlythyr CCC 15/2004.
GWEITHDREFNAU CWYNION Pob ysgol (dylai Ysgolion cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol ymgynghori â'u AALl) Y Rheoliadau Addysg (Sesiynau Ysgolion a Pholisïau Taliadau a Rhyddhau) (Gwybodaeth) (Lloegr) 1999.	**LWFANSAU LLYWODRAETHWYR (CYNLLUNIAU AR GYFER TALIADAU)** Pob ysgol – lle mae cyrff llywodraethol yn cytuno talu costau) Adran 36 (3) ac Atodlen 11 rheoliadau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r rheoliadau Addysg (Lwfansau Llywodraethwyr) 1999. **(I'w ddiwygio gan reoliadau newydd yn dilyn Deddf Addysg 2002 a ddisgwylir yn 2005).**
POLISI'R CWRICWLWM Pob ysgol. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000.	**ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR I RIENI** Pob ysgol. Adran 42 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sydd wedi'i disodli gan Ddeddf Addysg 2002, adran 30. **Rhagwelir y bydd yr arweiniad diwygiedig gan y Cynulliad yn cael ei gyhoeddi yn 2005.** ***Mae Cylchlythyr 15/01CCC yn darparu rhestr wirio am Ofynion Statudol ar gyfer yr adroddiad Blynyddol i Rieni.**

POLISI IECHYD A DIOGELWCH Ar gyfer ysgolion sy'n cael Cymorth Gwirfoddol ac ysgolion Sylfaen Gweler Pennod 17 o'r Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion ar gyfer rhestri deddfwriaethol perthnasol.	**CYNLLUN CYHOEDDI DEDDF RHYDDID GWYBODAETH** Pob ysgol. Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
RHEOLI PERFFORMIAD Pob ysgol. Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Diwygiad cylch gwaith Cymru) 2002. Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002.	**CYTUNDEBAU CARTREF-YSGOL** Pob ysgol. Adrannau 110 ac 111 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
POLISI DISGYBLU DISGYBLION (GAN GYNNWYS GWRTH-FWLIO). Pob ysgol. Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998	**OFFERYN Y LLYWODRAETH** Pob ysgol. Atodlen 12 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 6/99. Wedi'i ddiwygio mewn rheoliadau newydd.
POLISI CYDRADDOLDEB HILIOL/POLISI CYFLE CYFARTAL Pob ysgol. Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000 (Diwygiad). Gweler Pennod 12 o'r Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion ar gyfer rhestri deddfwriaethol perthnasol.	**COFNODION A PHAPURAU A YSTYRIWYD YNG NGHYFARFODYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL A'I BWYLLGORAU.** Pob ysgol. D.S Ac eithrio cyfeiriadau at fusnes y mae'r corff llywodraethol yn barnu ei fod yn gyfrinachol.

POLISI ADDYSG RHYW Rhaid i bob ysgol uwchradd ddarparu addysg rhyw a chadw cofnod ysgrifenedig. Adran 352 (1)c Deddf Addysg 1996. Nid yw'n ofynnol i ysgolion cynradd, ond gallant benderfynu cynnwys addysg rhyw yng nghwricwlwm yr ysgol a chadw cofnod ysgrifenedig.	**PROSBECTWS** Pob ysgol. Rheoliadau Gwybodaeth Addysg ysgolion (Cymru) 1999. **Mae Cylchlythyr 14/01 yn nodi rhestr wirio ar gyfer Prosbectws yr Ysgol.**
POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG Pob ysgol. Rheoliadau Gwybodaeth Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 1994	**COFRESTR O DDISGYBLION** Pob ysgol. Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 (wedi'u diwygio)
DISGYBLU, YMDDYGIAD, GALLU STAFF A GWEITHDREFNAU CWYNO. Pob ysgol. Atodlenni 16 a 17 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.	**COFRESTR DIDDORDEBAU BUSNES Y PENNAETH A'R LLYWODRAETHWYR** Pob ysgol. Rheoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999.
	GOSOD TARGEDAU AR GYFER YSGOLION Pob ysgol. Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Anawdurdodedig) (Cymru) 1999.

Rhestr o bolisïau a dogfennau nad ydynt yn statudol a argymhellir.

POLISI AMDDIFFYN PLANT * Pob ysgol. (**Argymhellir hwn yn gryf a bydd yn dod yn Statudol yn 2005)** Deddf Addysg 2002, adran 175. Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95 Amddiffyn Plant rhag cael eu Cam-drin: Rôl y Gwasanaeth Addysg.	**CYNLLUN DATBLYGU YSGOL** Pob ysgol. (Ystyrir bod hon yn ddogfen hanfodol sy'n cyfrannu tuag at y dasg o godi safonau.)
IECHYD A DIOGELWCH Mae'r AALl yn gyfrifol am osod y polisi mewn Ysgolion Cymunedol, Cymunedol Arbennig ac Ysgolion a Reolir (cyfeiriwch at Bennod 17 o'r Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion ar gyfer sefyllfa a rhestri deddfwriaethol)	**ADRODDIAD HUNANARFARNU** Pob ysgol. (Ystyrir bod hon yn ddogfen hanfodol sy'n cyfrannu tuag at y dasg o godi safonau.)
DATBLYGIAD CYNALIADWY Pob ysgol, Y Fframwaith Arolygu ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.	
POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU Mae Cylchlythyr 17/02 y Swyddfa Gymreig, Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc, yn argymell yn gryf y dylai fod gan bob ysgol bolisi clir i fynd i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau.	

*** Amddiffyn Plant**

Ar hyn o bryd, mae Cynulliad Cymru yn gweithio ar Gylchlythyr 52/95 Amddiffyn Plant a'r arwyddion yw y bydd y cylchlythyr yn cael ei ddiweddaru tuag at ddiwedd 2005 ac y bydd Amddiffyn Plant yn dod yn ofyniad statudol. Fodd bynnag, cyngor Estyn yw y dylai fod gan ysgolion bellach weithdrefnau clir ar waith, sy'n enwi'r cydlynydd yn eu dogfennaeth. Am eglurhad pellach, cyfeiriwch at Bolisi Amddiffyn Plant Estyn sydd ar gael ar ein gwefan.